

**Gwnewch eich cynllun.
Dihangwch yn fyw.**



**MAE
TÂN YN
LLADD**

**GALLWCH
EI ATAL**

Gwybodaeth bwysig i chi ei chadw am ddiogelwch rhag tân



Pe byddai'ch larwm fwg yn seinio yn y nos, fyddech chi'n gwybod beth i'w wneud? Mae'r daflen yma'n esbonio sut i wneud cynllun tân i'ch cartref. Darllenwch hi nawr – gallai arbed bywydau.

2



1



Gwnewch gynllun gyda'ch gilydd nawr

1 Cofiwch am bawb

- Gwnewch eich cynllun tân ynghyd â phawb yn eich cartref, yn enwedig plant, henoed neu bobl anabl.

2 Eich dihangfa orau yw'r ffordd arferol i mewn i'ch cartref ac allan ohono

- Dewiswch ffordd arall hefyd, rhag ofn bod y ffordd arferol yn amhosibl i'w defnyddio.
- Cadwch bob dihangfa'n glir.

3 Cofiwch ddweud wrth bawb yn eich cartref ble mae allwedd i'r drysau a'r ffenestri

- Byddwch chi mor ddiogel â'ch eiddo os gofalwch fod pawb sydd angen dianc mewn argyfwng yn gallu agor drysau a ffenestri yn ddiraffferth.

4 Weithiau, mae'n fwy diogel aros yn eich cartref

- Os yw eich dihangfa wedi ei rhwystro, mae'n bosibl mai'r peth gorau fyddai aros lle rydych, a chadw'n ddiogel nes bod y Frigâd Dân yn cyrraedd.
- Chwiliwch am ystafell addas nawr. Dewiswch ystafell gyda ffenestr sy'n agor, a ffôn i chi allu ffonio 999, os yn bosibl.

3



4



- Os yw hi'n amhosibl defnyddio'r grisiau mewn bloc o fflatiau oherwydd mwg neu dân, peidiwch â defnyddio'r lifft. Peidiwch â chynhyrfu. Ewch yn ôl i'ch fflat – fe'i cynlluniwyd i atal tân.
- Caewch y drws a dilynwch y camau diogelwch yn y daflen yma.

Os hoffech dderbyn cyngor di-dâl ar wneud eich cynllun tân, cysylltwch â'ch Brigâd Dân agosaf. Mae'r rhif yn eich llyfr ffôn lleol.

Wrth wneud eich cynllun tân:

- cofiwch am blant, yr henoed a phobl anabl;
- dewiswch y ddihangfa orau a ffordd arall allan, a chadwch y ddwy'n glir;
- dywedwch wrth bawb ble mae allwedd i'r drysau a'r ffenestri; ac
- os na allwch chi ddianc, mae'n well aros yn eich cartref, cadw'n ddiogel a disgwyl i rywun ddod i'ch achub.

Camau diogelwch i arbed bywydau



1 Gosodwch larymau mwg ar bob llawr yn eich cartref

- Os nad oes gennych larymau tân sy'n gweithio yn eich cartref, mae bron yn amhosibl i chi gadw'n fyw mewn tân tra byddwch yn cysgu.
- Profwch eich larymau mwg bob mis, a rhowch fatris newydd ynddynt unwaith y flwyddyn.
- Os yw'ch larymau mwg yn seinio o hyd, peidiwch â'u datgysylltu. Dyna yw eu gwaith nhw wedi'r cwbl. Holwch y Frigâd Dân am y lle gorau i'w gosod fel nad ydynt yn seinio yn ddiangen, er enghraifft, pan fyddwch yn coginio.

2 Caewch y drysau dros nos

- Mae hyn yn cadw mwg a than rhag lledu.

3 Gofalwch fod pob peth yn ddiogel cyn mynd i'r gwely bob nos

- Po fwyaf o'r offer trydan ddiffoddwch chi wrth y socedi yn y wal, mwyaf diogel fyddwch chi.
- Gwylwch offer nwy a rhowch giard o flaen tân agored i atal gwreichion.
- Diffoddwch sigarennau a chanhwyllau yn iawn. Peidiwch byth â rhoi matsys a thanwyr sigarennau o fewn cyrraedd plant.



4 Ewch ati i ymarfer eich cynllun tân

- Mae gwybod beth i'w wneud a gweithredu'n gyflym yn arbed bywydau. Treuliwch ychydig funudau bob hyn a hyn yn 'cerdded' y ddihangfa gyda phawb yn eich cartref, gan ofalu bod pawb yn gallu datgloi drysau a ffenestri a'u hagor yn ddidrafferth.
- Adolygwch eich cynllun yn rheolaidd, yn enwedig os bydd unrhyw newidiadau yn eich cartref.

Gofalwch amdanoch eich hun a lleihau perygl tân drwy wneud y canlynol:

- gosod larymau mwg ar bob llawr, a'u profi bob mis;
- cadw drysau ar gau dros nos;
- diffodd cynifer o offer trydan ag sy'n bosibl dros nos; a
- diffodd sigarennau a chanhwyllau yn ofalus, a chadw matsys a thanwyr sigarennau o gyrraedd plant.

Beth i'w wneud os ceir tân



1 Rhybuddio pawb

- Os yw'ch larwm fwg yn seinio tra byddwch yn cysgu, peidiwch â mynd i chwilio i weld a oes tân. Gwaeddwch ar bawb i ddeffro, dewch â phawb at ei gilydd, a dilynwch eich cynllun i ddianc.
- Rhwch gefn eich llaw ar unrhyw ddrysau – os ydynt yn teimlo'n gynnes, peidiwch â'u hagar – mae tân yr ochr draw.
- Os oes llawer o fwg, cropiwch â'ch trwyn tua'r llawr, lle bydd yr awyr yn lanach.

2 Dianc trwy ffenestr

- Os ydych ar y llawr isaf neu'r llawr cyntaf, mae'n bosibl y gallwch ddianc trwy ffenestr. Os oes rhaid torri'r ffenestr, rhwch

dyweli neu ddillad gwely trwchus dros y gwydr toredig.

- Taflwch ragor o ddillad gwely drwy'r ffenestr, rhag ofn i chi frifo wrth ddisgyn. Peidiwch â neidio trwy'r ffenestr – estynnwch hyd eich breichiau a disgyn i'r llawr.
- Os oes plant neu hen bobl neu bobl anabl gyda chi, trefnwch pwy fydd yn dianc yn gyntaf fel y gallwch eu helpu i lawr.

3 Peidiwch â mynd yn ôl i'ch cartref

- Ffoniwch y Frigâd Dân drwy ffôn symudol, ffôn cymydog neu o giosg. Rhwch gyfeiriad y tân.
- Peidiwch â stopio na throi'n ôl am unrhyw reswm.



4 Beth i'w wneud os yw hi'n amhosibl defnyddio eich dihangfa

- Ewch â phawb i un ystafell a chau'r drws. Gall mwg a nwy ladd pobl yn gyflym, felly rhowch ddillad gwely neu dyweli wrth waelod y drws i gau'r bwlc.
- Agorwch y ffenestr ac arhoswch yno i gael awyr iach ac i'r bobl sy'n ymladd y tân allu eich gweld.
- Ffoniwch y Frigâd Dân, neu gwaeddwch am help fel y gall rhywun arall ffonio drosoch.

I arbed eich bywyd mewn tân:

- os yw'ch larwm fwg yn seinio yn y nos, peidiwch â mynd i chwilio pam – deffrowch bawb arall a dihangwch, gan ddilyn eich cynllun;
- peidiwch ag agor unrhyw ddrysau sydd yn teimlo'n gynnes;
- peidiwch â stopio na throi'n ôl am unrhyw reswm – ffoniwch y Frigâd Dân; ac
- os ydych yn methu dianc, arhoswch gyda'ch gilydd mewn un ystafell, caewch y drws a disgwylwch i rywun ddod i'ch achub.

Gwybodaeth bwysig i chi ei chadw am ddiogelwch rhag tân

Gwybodaeth Arall

Os hoffech chi dderbyn copi o'r daflen yma ar dâp sain neu mewn Braille, print bras neu unrhyw un o'r ieithoedd isod, ffoniwch 0800 169 1697.

Dylai defnyddwyr ffôn testun ddefnyddio Typetalk.

Mae'r daflen yma ar gael yn yr ieithoedd a ganlyn:

Arabeg, Bengaleg, Gwjarati, Hindi, Pwnjabi, Wrddw, Tsieinëeg, Fietnameg, Groeg, Twrceg, Somali, Saesneg.

I wybod rhagor, ewch i'n gwefan ar:
www.community-fire-safety.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ar ddiogelwch tân yn eich cartref, ffoniwch eich Brigâd Dàn agosaf. Mae'r rhif yn eich llyfr ffôn.


Home Office
Swyddfa Gartref

ADEILADU CYMDEITHAS DDIOGEL,
GYFIAWN A GODDEFGAR

FL5W Cyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu'r Swyddfa Gartref, Medi 2000



**Gwnewch eich cynllun.
Dihangwch yn fyw.**